# Cwis diogelwch ar-lein



**1. Rwyt ti'n derbyn cais ffrind gan rywun nad wyt ti'n ei adnabod. Wyt ti'n ei dderbyn?**

- A) Nac wyt, rwyt ti'n gwrthod y cais ac yn eu blocio. Os yw derbyn y cais wedi gwneud i ti deimlo'n anghyfforddus neu'n bryderus, rho wybod i riant / gwarcheidwad / athro.
- B) Wyt, rwyt ti'n ei dderbyn ac yna anfon neges atynt yn gofyn pwy ydynt.
- C) Rwyt ti'n gofyn i dy ffrindiau ffeindio allan a oes unrhyw un yn eu hadnabod a ddim ond yn derbyn y cais os hynny.

**2. Rwyt am bostio fideo i TikTok, ond rwyt ti'n gwisgo dy wisg ysgol yn y fideo. A ydi hynny'n bwysig?**

- A) Na, ddim o gwbl, mae pawb yn gwybod pa ysgol rwyt ti'n mynd iddi beth bynnag ac mae'r rhan fwyaf o dy ddilynwyr yn dy adnabod di'n bersonol.
- B) Mae'n debyg y byddai'r fideo'n well heb y wisg ysgol, ond dwyt ti ddim am fynd i'r drafferth o'i hailffilmio ac felly'n ei phostio beth bynnag.
- C) Ydi, mae'n bwysig oherwydd bod dy wisg ysgol yn cynnwys enw'r ysgol arni. Mae hon yn wybodaeth bersonol a allai rhywun ei defnyddio i dy ffeindio di, felly ddylet ti ddim postio'r fideo ar-lein.

**3. Mae dy ffrind bob amser yn rhannu pob lleoliad mae hi'n ymweld ag ef ar-lein, ac yn dy dagio yn y postiad hefyd. A ddylet ti ofyn iddi roi'r gorau iddi?**


- A) Dylet, siarada â dy ffrind a gofyna iddi hi beidio â dy gofrestru di oherwydd nad wyt ti bob amser am rannu manylion dy leoliad. Trafoda gyda hi pam nad yw hi bob amser yn syniad da rhannu eich lleoliad ar-lein pan nad wyt ti'n siŵr pwy fydd yn gallu ei weld.
- B) Na, dim ond cael cystadleuaeth i weld pwy all dagio pwy gyflymaf y tro nesaf!
- C) Fe hoffet ti, ond rwyt ti'n gwybod y byddan nhw'n dweud dy fod ti'n bod yn wirion drwy beidio â bod eisiau cael dy dagio.

**4. Rwyt ti'n cael e-bost o'r ap rwyt ti'n ei ddefnyddio drwy'r amser yn gofyn am dy gyfrinair i drwsio problem gyda dy gyfrif. Beth wyt ti'n ei wneud?**

- A) Ateb yn syth gyda dy gyfrinair, fel bod yr ap yn parhau i weithio.
- B) Peidio â chlicio ar unrhyw ddolenni yn yr e-bost, ond mynd i'r ap ei hun ac edrych am unrhyw negeseuon dilys. Mae'n syniad da newid dy gyfrinair yr un pryd.
- C) Ateb gan ofyn am gadarnhad bod yr e-bost yn ddilys a ddim yn sgam cyn anfon dy gyfrinair.

**5. Mewn sgwrs gêm, mae rhywun nad wyt ti'n ei adnabod yn anfon dolen atat. Beth wyt ti'n ei wneud?**

- A) Peidio â chlicio ar unrhyw ddolenni. Mi elli di riportio'r neges neu ei dileu ar unwaith.
- B) Mae'r enw'n edrych yn gyfarwydd, felly rwyt ti'n clicio'r ddolen i weld a yw'n unrhyw beth diddorol.
- C) Anfon ef ymlaen at dy ffrind i weld beth maen nhw'n ei feddwl.



**6. Mae rhywun rwyt ti'n ei adnabod wedi anfon neges atat yn dweud pethau ofnadwy am berson arall. Beth ddylet ti ei wneud?**

- A) Cytuno â nhw, dwyt ti ddim wir yn hoffi'r person arall beth bynnag.
- B) Peidio ag ymateb i'r neges, ond cymryd llun a'i ddangos i oedolyn rwyt ti'n ymddiried ynddo (e.e. athro sy'n gallu gweithredu i atal y bwlio).
- C) Anwybyddu'r neges a'i dileu - dwyt ti ddim am gymryd rhan.

NSPCC

EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR

©NSPCC 2021. Elusen gofrestredig Cymru a Lloegr 216401. Yr Alban SC037717 a Jersey 384. Llun gan Shutterstock. J20211243.

# Cwis diogelwch ar-lein

**7. Rwyt ti'n darganfod bod rhywun wedi rhannu llun ohonot doeddet ti ddim am i neb ei weld. Beth ddylet ti ei wneud?**

- A) Ei anwybyddu, a gobeithio y bydd llun o rywun arall sy'n codi embaras yn cael ei rannu yfory.
- B) Gyrru neges atyn nhw a galw nhw'n enwau er mwyn talu'r pwyth yn ôl.
- C) Rwyt ti'n gwybod y bydd hi'n anodd, ond mae'n well dweud wrth oedolyn rwyt ti'n ymddiried ynddo (rhiant, neu athro) beth sydd wedi digwydd er mwyn iddyn nhw allu dy helpu.

**8. Rwyt ti wedi bod yn sgwrsio â chwaraewr arall ar gêm ar-lein ers ychydig wythnosau ac maen nhw wedi awgrymu cyfarfod dros y penwythnos. Beth wyt ti'n ei ddweud?**

- A) Mae hyn yn teimlo braidd yn rhyfedd i ti, felly rwyt ti'n dweud wrth oedolyn rwyt ti'n ymddiried ynddo (neu gwnselydd Childline) beth maen nhw wedi gofyn i ti ei wneud.
- B) Dweud ie cyn belled â'ch bod yn gallu cyfarfod mewn lle prysur.
- C) Mynd â dy ffrind gorau gyda ti - byddwch chi'n iawn os bydd dau ohonoch.

**9. Sut wyt ti'n darganfod a yw gêm newydd rwyt ti am ei chwarae yn addas ar gyfer dy oedran?**

- A) Chwilio amdani yn y siop apiau neu safle datblygwr y gêm a gweld pa sgôr oedran sydd ganddi.
- B) Gofyn i dy ffrindiau os ydyn nhw'n ei chwarae hi. Os hynny, mi allu di ei phrynu hi hefyd.
- C) Rwyt ti'n chwarae'r gemau rwyt ti'n eu hoffi, heb drafferthu i edrych ar y sgor oedran.

**10. Wrth chwarae gêm mae chwaraewr newydd yn ymuno gydag enw defnyddiwr digywilydd. Maen nhw'n ymuno yn y sgwrs ac yn dweud rhai pethau erchyll wrthyt. Beth ddylet ti ei wneud?**

- A) Anwybyddu'r sylwadau, mae'n amlwg nad ydyn nhw'n dy hoffi a dwyt ti ddim am wneud yn sefyllfa yn waeth.
- B) Rhoi'r gorau i chwarae'r gêm, dwyt ti ddim am orfod clywed y sylwadau erchyll.
- C) Riportio'r chwaraewr i'r gêm a'u blocio. Siarad gyda rhiant / oedolyn.

**11. Rwyt ti'n defnyddio gwefan sgwrsio i drafod gêm wrth ei chwarae, ond mae un person yn mynnu gofyn pethau eraill i ti fel beth wyt ti'n ei wneud dros y penwythnos a ble rwyt ti'n mynd. A ydi hyn yn rhyfedd ac a ddylet ti ateb?**

- A) Anwybyddu'r sylwadau a siarad am y gêm. Os ydyn nhw'n parhau i drafod pethau eraill, rhoi gwybod i safonwr.
- B) Dweud wrthyn nhw am dy gynlluniau penwythnos a'r hyn rwyt ti'n bwriadu ei wneud.
- C) Anfon neges breifat atyn nhw a dweud wrthyn nhw am dy gynlluniau – dwyt ti ddim am i weddill y grŵp sgwrsio wybod amdanyn nhw.

**12. Rwyt ti'n ei chael hi'n anodd pasio lefel mewn gêm. Mae ffrind yn dweud y gallan nhw basio'r lefel ar dy ran os wnei di roi dy gyfrinair iddyn nhw er mwyn iddyn nhw allu mewngofnodi. A ddylet ti wneud hynny?**

- A) Dweud diolch ond dim diolch am nad wyt ti'n rhannu cyfrineiriau (neu wybodaeth bersonol arall), ond gofyn am rai awgrymiadau am y gêm serch hynny.
- B) Os yw'n golygu y byddi di'n cyrraedd y lefel nesaf, yna pam lai - rwyt ti'n fodlon rhoi cynnig ar unrhyw beth!
- C) Dweud iawn, ond gwneud iddyn nhw addo i anghofio dy gyfrinair yn syth.



Gall plant gysylltu â Childline eu hunain ar unrhyw bryd i gael cymorth drwy fund at: **childline.org.uk**

**Atebion**
1. A, 2. C, 3. A, 4. B, 5. A, 6. B,
7. C, 8. A, 9. A, 10. C, 11. A, 12. A,

NSPCC

**EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR**

©NSPCC 2021. Elusen gofrestredig Cymru a Lloegr 216401. Yr Alban SC037717 a Jersey 384. Llun gan Shutterstock. J20211243.